Nef yw i'm henaid ymhob man

Caneuon Ffydd: Rhif 688

Nef yw i'm henaid ymhob man
pan brofwyf Iesu mawr yn rhan;
ei weled ef â golwg ffydd
dry'r dywyll nos yn olau ddydd.

Mwynhad o'i ras maddeuol mawr,
blaen-brawf o'r nef yw yma nawr;
a darllen f 'enw ar ei fron
sy'n nefoedd ar y ddaear hon.

Ac er na welaf ond o ran
ac nad yw profiad ffydd ond gwan,
y defnyn bach yn fôr a fydd
a'r wawr a ddaw yn berffaith ddydd.

ROBERT AP GWILYM DDU, 1766–1850

MYFYRDOD

O edrych ar ychydig o waith Robert ap Gwilym Ddu (ceir tri emyn ganddo yn *Caneuon Ffydd*), mae thema'r nefoedd yn un gref iawn ganddo; sonia am seraffiaid ac angylion a chaniadau'r nef, ac mae meddwl am y nefoedd yn llenwi ei ddychymyg. Mae'n gwybod hefyd fod tragwyddoldeb y tu hwnt i'w ddychymyg ei hun: 'Mhen oesoedd rif y tywod mân ni fydd y gân ond dechrau', meddai yn emyn 492. Gallwn ddweud, felly, ei fod yn un a deimlai hiraeth am ei gartref, yn un a garai sôn am ben ei daith, chwedl Emrys (617).

Ond er gobeithio am a ddaw, mae'n gwybod bod yr addewid o nefoedd i'w dderbyn a'i feddiannu yn y presennol yma ar y ddaear hefyd: 'Nef yw i'm henaid ymhob man', meddai, am ei fod yn gwybod mai Iesu ei hun sydd yn mynd â bryd trigolion y lle hwnnw. 'Nid oes ar y ddinas angen na'r haul na'r lleuad i dywynnu arni, oherwydd gogoniant Duw sy'n ei goleuo, a'i lamp hi yw'r

Oen' (Dat. 21:23). Ef sydd hefyd yn abl i'n goleuo yn ein byd presennol – ei weld 'dry'r dywyll nos yn olau ddydd'. Nid breuddwyd ffŵl mo'r nefoedd i Robert ap Gwilym Ddu, oherwydd mae ganddo'r 'blaen-brawf . . . yma nawr', wrth iddo fwynhau 'gras maddeuol mawr' a chael sicrwydd wrth iddo 'ddarllen f'enw ar ei fron'. Mae'n cael sicrwydd o'i dderbyniad yno a hefyd mae'n cael ei atgoffa ei fod yn perthyn i Deyrnas nad ydy hi o waith llaw, a'i fod wedi ei dderbyn yn ddinesydd y nef.

Gall profiad felly ein gwneud yn ddihid am ein hamgylchiadau presennol ac amgylchiadau eraill hefyd, medd rhai. Gawsoch chi eich cyhuddo o fod â'ch pen yn y cymylau, neu heb fod â'ch traed ar y ddaear erioed? Edrychwch ar weddi Iesu dros ei ddisgyblion yn Ioan 17 a gwelwn nad ydy Iesu am i Dduw dynnu ei ddisgyblion allan o'r byd er nad ydyn nhw'n perthyn iddo: 'Nid wyf yn gweddïo ar i ti eu cymryd allan o'r byd, ond ar i ti eu cadw'n ddiogel rhag yr Un drwg' (Ioan 17:15). Ond mae'n eu hanfon i'r byd yn ei nerth ei hun: 'yr wyf fi'n eu hanfon hwy i'r byd' (17:18).

Yn y sicrwydd hwn o gwmni Iesu, ein bod yn perthyn iddo ef, y mae 'blaen-brawf o'r nef . . . yma nawr', a thyfu a chynyddu fydd y prawf hwnnw wrth inni ymddiried mwy yn yr un sy'n goleuo'r nef. Bydd y defnyn bach yn troi yn fôr a'r wawr sydd wedi torri eisoes yn dod 'yn berffaith ddydd'.

GWEDDI

O Dad trugarog, helpa fi i ddeall nad ydy cadw'r nefoedd o'm blaen a gobeithio yn yr hyn a ddaw yn golygu fy mod yn cael esgeuluso fy nghyfrifoldebau fel pererin yn y byd. Ond, yn hytrach, bod y blaen-brawf o'r nef yng nghwmni Iesu Grist yn fy ngwneud yn fwy effeithiol yn y byd. Yn enw'r Oen sy'n oleuni i'r nef ac yn oleuni i minnau. Amen.